DATGANIAD MAETHYNNAU FERSIWN 2: Cynigion datblygu sy'n golygu cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus

FERSIWN 1: Rhagfyr 2024

FERSIWN 2: Hydref 2026

Cefndir

1. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru adroddiad yn asesu cydymffurfiad â thargedau ffosfforws ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n afonydd yng Nghymru, fel y'u diwygiwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Cyflwynodd yr adroddiad hwn asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru o faint o ffosfforws sydd mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi'i fesur yn erbyn targedau ansawdd dŵr diwygiedig. Dangosodd yr adolygiad o dystiolaeth bod dros 60% o'r cyrff dŵr a aseswyd [mewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig] yn methu â bodloni'r targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosfforws. Mae crynodiadau uchel o ffosfforws yn arwain at y broses o orfaethu, a adnabyddir hefyd fel ewtroffigedd, a gall newid cydbwysedd y rhywogaethau planhigion yn ein hafonydd gan achosi niwed ecolegol sylweddol.

2. Yn benodol, yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, nododd yr asesiad bod 88% o gyrff dŵr yr afon o fewn dalgylch Afon Wysg yn methu â bodloni'r targed ffosfforws gofynnol ac o fewn dalgylch Afon Gwy methodd 67% â bodloni'r targed ffosfforws gofynnol. Nodwyd bod 0% o'r cyrff dŵr yn nalgylch Afon Tywi yn methu â bodloni'r targed ffosfforws gofynnol. Cyhoeddwyd diweddariad i dargedau ffosfforws gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Awst 2023.

3. Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru asesiad o nodweddion ansawdd dŵr eraill yn erbyn targedau mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys asesiad o amonia, a all gael effeithiau gwenwynig ar fywyd dyfrol neu fod yn llygrydd sy'n arwain at orfaethu. Er y canfuwyd bod y mwyafrif o ddalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn bodloni targedau amonia, bydd angen i Awdurdodau Cynllunio ystyried effaith datblygiad ar ollyngiadau amonia i afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

4. Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru wybodaeth wedi'i diweddaru am fonitro ansawdd dŵr. O fewn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, methodd 46% o gyrff dŵr Afon Wysg â chyrraedd y targed ffosfforws gofynnol. O fewn dalgylch Afon Gwy, methodd 58% â chyrraedd y targed ffosfforws gofynnol. Roedd pob corff dŵr yn Afon Tywi a aseswyd yn dal i fodloni'r targedau ffosfforws gofynnol, er bod lefelau ffosfforws wedi codi. Yn gyffredinol, mae nifer y cyrff dŵr sy'n methu yn

nalgylchoedd Afon Wysg ac Afon Gwy wedi gostwng, hyd yn oed wrth ystyried bod rhai cyrff dŵr, na chawsant eu hasesu o'r blaen, wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, mae'r data newydd ar ansawdd dŵr yn dangos darlun cymhleth, gyda rhai cyrff dŵr yn dirywio ac eraill yn gwella.

5. Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor cadwraeth ac asesiadau cyflwr wedi'u diweddaru ar gyfer ardaloedd morol gwarchodedig. Daeth asesiadau cyflwr ar gyfer tair ACA morol Cymru i'r casgliad bod nodweddion sensitif i faethynnau o fewn rhai cyrff dŵr mewn cyflwr anffafriol oherwydd cyfoethogi nitrogen. Mae corff dŵr Mewnol Cilfach Tywyn o fewn ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn un o'r rhai yr effeithiwyd arnynt ar ôl methu dangosyddion cemegol (nitrogen anorganig toddedig) a biolegol perthnasol ar gyfer cyfoethogi nitrogen.

6. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi diweddaru'r cyngor a gyhoeddwyd ynghylch niwtraliaeth maethynnau mewn perthynas â datblygiadau newydd o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i faethynnau, boed yn rhai afonol neu forol. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r canllawiau ar gael yma. Cyngor i Awdurdodau Cynllunio ar gyfer Ceisiadau Cynllunio sy'n Effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n Sensitif i Faethynnau.

7. Mewn perthynas â dalgylchoedd ACA afonydd, mae'r canllawiau'n cadarnhau bod niwtraliaeth maethynnau yn dal i fod yn ofynnol ym mhob corff dŵr sy'n methu â chyrraedd eu targedau ffosfforws yn ogystal â phob corff dŵr i fyny'r afon o'r pwynt hwnnw. Mae'n dal i fod yn ofynnol i bob corff dŵr o fewn dalgylch Afon Wysg ddangos niwtraliaeth maethynnau. Efallai na fydd angen niwtraliaeth maethynnau o fewn rhai cyrff dŵr isaf dalgylch Afon Gwy, nac unrhyw ran o ddalgylch Afon Tywi, er y bydd y capasiti i ddarparu ar gyfer ffosfforws ychwanegol yn gyfyngedig. Mewn achosion o'r fath, rhaid i ddatblygiad newydd ddangos na fydd targedau ansawdd dŵr yn cael eu rhagori na'u hatal rhag cael eu cyflawni yn y dyfodol.

8. Mewn perthynas â chyrff dŵr ACA morol, mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i ollyngiadau nitrogen fod yn niwtral o ran maethynnau o fewn dalgylch afon sy'n draenio i gorff dŵr ACA sy'n sensitif i faethynnau. Felly, bydd gofyn i ddatblygiadau sy'n cysylltu â gweithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n gollwng i ddalgylch afon Llwchwr ddangos niwtraliaeth o ran maethynnau. Mae rhannau uchaf Afon Llwchwr wedi'u lleoli yn ardal de-orllewinol y Parc Cenedlaethol. Yn ymarferol, mae'r gofyniad am niwtraliaeth o ran maethynnau wedi'i gyfyngu i ddatblygiadau sy'n cysylltu â'r rhwydweithiau carthffosiaeth prif hynny sydd wedi'u lleoli ar hyd ffin de-orllewinol y Parc Cenedlaethol.

9. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynghori Awdurdodau Cynllunio Lleol bod camau 'priodol' eraill (yn unol ag Erthygl 6(2) o'r Gyfarwyddeb Gynefinoedd) yn cael eu cymryd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â ffynonellau presennol eraill o Ffosfforws (P) ac adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i gyflwr ffafriol, mewn perthynas â defnydd tir gwledig. (Nodyn Briffio Cyfoeth Naturiol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023)

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

10. Diogelir Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) – a adnabyddir hefyd fel y Rheoliadau Cynefinoedd.

11. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Awdurdod Cymwys ac mae'n rhaid iddo gynnal asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, a adnabyddir fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, i brofi a allai cynnig ar gyfer cynllun neu brosiect achosi niwed sylweddol i nodweddion dynodedig Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

12. Mae gan Lywodraeth Cymru ganllaw defnyddiol ar gyfer proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'n cyflwyno dull cyffredinol yn ogystal ag egwyddorion allweddol i'w dilyn. Mae rhai egwyddorion allweddol yn ymwneud â'r angen i fabwysiadu dull rhagofalus i wneud penderfyniadau, yr angen i wneud dyfarniadau yn seiliedig ar ffeithiau'r sefyllfa unigol a chyflwr ecolegol nodweddion y safle tra'n defnyddio'r wybodaeth wrthrychol a gwyddonol orau sydd ar gael i wneud penderfyniadau hyderus.

13. Gweler yma am ragor o wybodaeth a gwahanol gamau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd : https://www.llyw.cymru/asesiadau-rheoliadau-cynefinoedd-diogelu-safle-ewropeaidd-html.

Dyletswydd a Dibenion Parciau Cenedlaethol

14. Cyflwynir dibenion a dyletswydd statudol Parciau Cenedlaethol yn Neddf yr Amgylchedd 1995.

    Ein dibenion statudol:
    - gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol
    - hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol

    Ein dyletswydd statudol:
    - meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol y cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol

15. Y Dibenion Statudol a'n Dyletswydd Statudol yw sail yr holl waith yr ydym yn ei wneud.

16. Mae'r ddau ddiben hyn wedi'u seilio ar Egwyddor Sandford sy'n mynnu goruchafiaeth y diben cyntaf dros yr ail mewn achosion o wrthdaro na ellir ei gymodi.

17. Yn ogystal â'r ddau ddiben statudol, mae Adran 62 Deddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ddyletswydd ar y Parc Cenedlaethol i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol. Dylid cyflawni'r ddyletswydd hon wrth fynd ar drywydd dibenion y Parc Cenedlaethol.

Pa gamau ehangach sy'n cael eu cymryd yn nalgylchoedd afonydd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig?

18. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi mentrau i sefydlu Byrddau Rheoli Maethynnau a Phartneriaethau Dalgylch ar gyfer dalgylchoedd afonydd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau i wella ansawdd dŵr ar draws y Parc Cenedlaethol.
    - Sefydlwyd **Partneriaeth Dalgylch Afon Wysg** ac mae wedi'i lleoli yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar hyn o bryd; mae hon yn dod â chyrff statudol a phartïon â buddiant ynghyd o amgylch nod cyffredin o adfer iechyd a chydnerthedd ecolegol Afon Wysg a'i dalgylch. Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Maethynnau Wysg ym mis Ebrill 2025. Ceir rhagor o wybodaeth am waith Partneriaeth Dalgylch Wysg yn https://uskcatchmentpartnership.cymru/
    - Cynrychiolir Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar **Fwrdd Rheoli Maethynnau ac yng Ngrŵp Swyddogion Statudol Afon Gwy**. Cyhoeddwyd sail dystiolaeth ar gyfer rhannau Cymreig a Seisnig Afon Gwy, er mwyn llywio camau gweithredu sy'n ymwneud â rheoli maethynnau, fel rhan o Gynllun Rheoli Dalgylch Afon Gwy wedi'i ddiweddar (sydd wrthi'n cael ei baratoi).
    - Sefydlwyd **Bwrdd Rheoli Maethynnau Gorllewin Cymru** unwaith eto ar gyfer dalgylchoedd afonydd y Tywi, y Teifi a'r Cleddau, gyda chynrychiolaeth gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae Cynlluniau Rheoli Maethynnau ar gyfer pob dalgylch wedi'u cyhoeddi. Mae camau hefyd ar y gweill i sefydlu partneriaethau dalgylch ar wahân er mwyn helpu i gyflawni'r cynlluniau ac i fynd i'r afael â materion ehangach.

19. Yn ogystal â hyn:
    - Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu **Prosiect Adfer Dalgylch Gwy Uchaf**, â nodau i ddiogelu rhywogaethau a gwella cynefinoedd trwy fynd i'r afael â phwysau amrywiol sy'n effeithio ar yr afon a bydd cyflawni gwelliannau yn y dalgylch uchaf o fudd i'r system afonydd gyfan.
    - Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Offeryn Cyfrifo Maethynnau Cymru Gyfan** i gynorthwyo gydag asesu effeithiau. Cyfrifiannell cyllideb maetholion | LLYW.CYMRU. Mae **Dewislen Mesurau Lliniaru** ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-uwchgynhadledd-llygredd-afonydd.

Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff a Thrwyddedau Amgylcheddol

20. Ceir gweithfeydd trin dŵr gwastraff niferus o wahanol feintiau yn nalgylchoedd y dair afon Ardal Gadwraeth Arbennig ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae pob gwaith trin dŵr gwastraff yn gweithredu o dan drwydded amgylcheddol sy'n cael ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

21. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal adolygiad o drwyddedau cwmnïau dŵr presennol ar gyfer y gweithfeydd trin dŵr gwastraff mwy (h.y. y rhai â llif tywydd sych, gollyngiad elifion terfynol o fwy nag $20m^3$ y dydd) yn erbyn targedau ffosfforws diwygiedig.

22. Os hoffech ragor o wybodaeth, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw Cofrestr Gyhoeddus o wybodaeth trwyddedau sydd ar gael yma:

https://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/public-register-environmental-permitting/?lang=cy

Beth mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei adolygu ar gyfer cysylltiadau â gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus pan fo'r drwydded amgylcheddol wedi cael ei hadolygu yn erbyn targedau maethynnau ac ansawdd dŵr diwygiedig?

23. Pan fo trwydded gwaith trin dŵr gwastraff wedi cael ei hadolygu yn erbyn targedau ansawdd dŵr diwygiedig ac, mewn rhai achosion, ei newid yn unol â hynny, bydd datblygiadau newydd sy'n cysylltu â'r garthffos gyhoeddus gysylltiedig yn dal i fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er y dylai effeithiau maethynnau cysylltiadau newydd gael eu hystyried **ar sail achosion unigol**, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn hysbysu ei bod yn **debygol** y **gellid** dod i gasgliad o ddim effaith arwyddocaol yng nghyd-destun effeithiau ansawdd dŵr pan fo'r ymgymerwr carthffosiaeth yn cadarnhau bod y canlynol yn berthnasol:
    - bod capasiti i gael a thrin dŵr gwastraff ychwanegol o'r datblygiad arfaethedig o fewn cyfyngiadau trwydded amgylcheddol ddiwygiedig (sy'n golygu cyfyngiadau maethynnau â dyddiadau gweithredol ar unwaith ac ar gyfer rhai trwyddedau, cyfyngiadau maethynnau mwy llym â dyddiadau gweithredol yn y dyfodol), **a**
    - bod y gwaith trin dŵr gwastraff wrthi'n gweithredu mewn cydymffurfiad ag amodau trwydded, **a**
    - bod y gwaith trin dŵr gwastraff yn gollwng i ddalgylch corff dŵr sy'n bodloni targedau ansawdd dŵr ar gyfer ffosfforws**, ac** mae pob corff dŵr afon i lawr yr afon hefyd yn bodloni eu targedau ffosfforws; **neu**
    - bod ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru yn cadarnhau bod y terfynau ffosfforws ar gyfer yr elifiant terfynol o'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) wedi'u gostwng yn sgil adolygiad diweddar; roedd y gwaith yn gweithredu'n flaenorol gyda llwyth ffosfforws uwch na'r hyn y gellir ei ollwng o dan derfynau diwygiedig y drwydded[1] , a bydd y gwaith yn gweithredu o fewn y terfynau gostyngol hynny pan ddechreuir meddiannu'r safle.

24. Dylid nodi y gallai fod angen i gwmpas Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fod yn ehangach na chwmpas yr adolygiad trwydded ac ystyried nodweddion eraill safle, gwybodaeth newydd neu newidiadau i amgylchiadau.

25. Bydd pa un a oes lliniaru penodol yn ofynnol ar gyfer datblygiad penodol yn cael ei ystyried **ar sail achosion unigol, yn rhan o broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn hysbysu, **pan fo'n briodol**, bod Awdurdodau Cynllunio yn cael eu cynghori i gyflwyno amod ar amseriad datblygiad i gyfateb â chyflawni gwelliannau yn y dyfodol mewn gwaith trin dŵr gwastraff gan gynnwys y rhai sydd wedi'u trefnu o dan y Cynllun Rheoli Asedau. Gellid defnyddio amodau Grampian[2] ond, fel mesur lliniaru penodol i ddatblygiad, dylid ystyried hyn ar

[1] Pan nad oedd gan waith trin dŵr gwastraff derfyn ffosfforws cyn yr adolygiad trwydded, ac na chynigir tynhau pellach ar y terfyn ffosfforws, rhaid dangos tystiolaeth o ostyngiad yn y llwyth ffosfforws drwy ddata monitro a gasglwyd cyn cyflwyno'r terfyn ffosfforws newydd sbon (terfyn '*backstop*' yn Saesneg).

[2] Amodau negyddol sy'n atal gweithrediad datblygiad a ganiatawyd trwy ganiatâd cynllunio tan i ryw gam sy'n ofynnol o dan yr amod wedi cael ei gymryd yw amodau Grampian. Mae'r term yn deillio o Gyngor Rhanbarthol Grampian yn erbyn Dinas Aberdeen (1984).

sail achosion unigol ar adeg Asesiad Priodol. Pan fo gwelliannau yn y dyfodol yn ofynnol i alluogi gwaith trin i fodloni cyfyngiadau trwydded a adolygwyd, **gellir dod i gasgliadau o ddim effaith arwyddocaol neu ddim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle dim ond os oes sicrwydd ar yr adeg y mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal y bydd y gwelliannau hyn a gynigir yn y Cynllun Rheoli Asedau yn cael eu rhoi ar waith** (geiriau bras Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau ar gyfer pwyslais).

26. Gweler cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru am ragor o wybodaeth.

Y Sefyllfa Maethynnau mewn Aneddiadau Unigol

Beth yw dull y Parc Cenedlaethol o ran cysylltiadau â gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus pan fo'r drwydded amgylcheddol wedi ei hadolygu yn erbyn targedau maethynnau diwygiedig?

27. Fel y nodwyd uchod, mae canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gwneud yn eglur bod angen ystyried cynigion ar sail achosion unigol. Mae egwyddorion allweddol cynnal Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn ymwneud â'r angen i ddull rhagofalus gael ei fabwysiadu o wneud penderfyniadau, yr angen i wneud dyfarniadau yn seiliedig ar ffeithiau'r sefyllfa unigol a chyflwr ecolegol y safle tra'n defnyddio'r wybodaeth wrthrychol a gwyddonol orau sydd ar gael i hysbysu penderfyniadau. Hefyd, fel Awdurdod Parc Cenedlaethol, mae angen rhoi ystyriaeth briodol i'n dyletswydd a'n dibenion statudol (mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://bannau.cymru/yr-awdurdod/amdanom-ni/ffeithiau-a-ffigurau/). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ein hysbysu bod gwaith ar fesurau ehangach yn cael ei wneud ar draws dalgylchoedd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i fynd i'r afael â'r cyfraniadau maethynnau o ffynonellau eraill.

28. Gyda'r materion uchod mewn golwg, rydym yn nodi isod dull presennol yr Awdurdod o ran y trwyddedau gwaith trin dŵr gwastraff a adolygwyd yn erbyn targedau maethynnau ac ansawdd dŵr diwygiedig hyd yma; mae hyn yn cynnwys canllawiau penodol ar ein dull yn aneddiadau mwy y Parc Cenedlaethol ar gyfer dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd Gwy ac Wysg.

29. Mae ein dull wedi'i lywio gan ymateb i Gais am Wybodaeth Amgylcheddol (EIR) a gafwyd gan Dŵr Cymru ym mis Chwefror 2026. Ceisiwyd yr ymateb EIR hwn yn unol â chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ymateb EIR yn rhoi manylion ynghylch crynodiad ffosfforws yng ngollyngiad pob safle gwaith trin dŵr gwastraff er mwyn galluogi dealltwriaeth o'r cwestiwn a oedd y gwaith trin dŵr gwastraff, yn y gorffennol, yn gweithredu gyda llwyth ffosfforws oedd yn uwch na'r hyn y gellir ei ollwng o dan derfynau trwydded diwygiedig, ai peidio.

Aberhonddu

Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru

30. Adolygwyd Trwydded Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac fe'i cyhoeddwyd ar 22 Tachwedd 2023. Mae gan y drwydded derfyn

ffosfforws o 5mg/litr bellach, yn weithredol o 28 Tachwedd 2023 a bydd terfyn ffosfforws mwy llym o 2mg/litr yn cael ei orfodi o 31 Rhagfyr 2025.

31. Nid oedd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu yn cydymffurfio o safbwynt Llif a Basiwyd Ymlaen[3], ond rhoddwyd cynllun ar waith i fynd i'r afael â hyn. Mae Dŵr Cymru bellach wedi cadarnhau bod Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu wrthi'n cydymffurfio o ran y llif a basiwyd ymlaen.

32. Mae'r drwydded yn cynnwys terfyn amonia o 15mg/litr yn weithredol o 28 Tachwedd 2023. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y gwaith trin dŵr gwastraff wrthi'n cydymffurfio â'r terfyn hwn.

33. Mae ymateb Dŵr Cymru o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR) wedi cadarnhau bod Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu, yn y gorffennol, wedi bod yn gweithredu gyda chrynodiad ffosfforws oedd yn uwch na'r terfyn a ganiatawyd fel rhan o'r broses adolygu trwyddedau.

Dull y Parc Cenedlaethol

34. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd.

35. Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol sydd ar gael a chan fabwysiadu dull rhagofalus sy'n cymryd i ystyriaeth cyflwr ecolegol y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu i mewn.

36. Byddwn yn parhau i ystyried materion fesul achos; ar yr amod bod Dŵr Cymru yn parhau i gadarnhau bod digon o gapasiti i dderbyn y dŵr gwastraff ychwanegol, yn unol â therfynau diwygiedig y drwydded (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â llif, safonau'r elifiant terfynol a'r llif a drosglwyddir ymlaen), rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r gwaith trin dŵr gwastraff hwn.

Crucywel

Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru

37. Adolygwyd Trwydded Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Crucywel gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac fe'i cyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2024. Mae gan y drwydded derfyn ffosfforws o 5mg/litr bellach, yn weithredol o 7 Chwefror 2025.

38. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Crucywel yn cydymffurfio ar hyn o bryd o safbwynt Llif a Basiwyd Ymlaen.

[3] Diffinnir Llif a Basiwyd Ymlaen fel cyfradd llif (litrau yr eiliad) y dŵr gwastraff sy'n cyrraedd y gorlif o'r system gasglu i fyny'r afon, ac sy'n cael ei drosglwyddo ymlaen i'r llif parhaus. Rhaid cynnal y Llif a Basiwyd Ymlaen drwy gydol y digwyddiad gorlifo; fel arall, ystyrir bod capasiti hydrolig y garthffos i lawr yr afon wedi cael ei ragori (yn unol ag amod trwydded unigol y gorlif storm) [yn unol â Nodyn Canllaw Cyfoeth Naturiol Cymru: GN066: Sut i ddosbarthu gorlifoedd storm]

39. Mae'r drwydded yn cynnwys terfyn amonia o 20mg/litr yn weithredol o 7 Chwefror 2024. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y gwaith trin dŵr gwastraff yn cydymffurfio â'r terfyn hwn.

40. Mae ymateb Dŵr Cymru o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR) wedi cadarnhau bod Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Crucywel yn gweithredu'n flaenorol gyda chrynodiad ffosfforws oedd yn uwch na'r terfyn a ganiatawyd fel rhan o'r adolygiad trwyddedau.

Dull y Parc Cenedlaethol

41. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol sydd ar gael a chan fabwysiadu dull rhagofalus sy'n cymryd i ystyriaeth cyflwr ecolegol y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Crucywel i mewn.

42. Byddwn yn parhau i ystyried materion fesul achos; ar yr amod bod Dŵr Cymru yn parhau i gadarnhau bod digon o gapasiti i dderbyn y dŵr gwastraff ychwanegol – yn unol â therfynau diwygiedig y drwydded (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â llif, safonau'r elifiant terfynol, a'r llif a drosglwyddir ymlaen) – rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r gwaith trin dŵr gwastraff hwn.

Aberbaiden

Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru

43. Adolygwyd Trwydded Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberbaiden gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac fe'i hail-gyflwynwyd ar 23 Ionawr 2024. Mae gan y drwydded derfyn ffosfforws o 5mg/litr bellach, yn weithredol o 30 Ionawr 2025. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y gwaith trin dŵr gwastraff yn cydymffurfio â'r terfyn hwn.

44. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberbaiden yn cydymffurfio ar hyn o bryd o safbwynt llif a basiwyd ymlaen gan fod Dŵr Cymru wedi ymgymryd â chynllun yn ddiweddar i ddatrys achos o ddiffyg cydymffurfiad sylweddol ymddangosiadol.

45. Mae'r drwydded yn cynnwys terfyn amonia o 15mg/litr, yn weithredol o 30 Ionawr 2024. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau y bydd y gwaith trin dŵr gwastraff yn cydymffurfio â'r terfyn hwn.

46. Mae ymateb Dŵr Cymru o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR) wedi cadarnhau bod Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberbaiden yn arfer gweithredu gyda chrynodiad ffosfforws oedd yn uwch na'r terfyn a ganiatawyd fel rhan o'r broses adolygu trwyddedau.

Dull y Parc Cenedlaethol

47. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol sydd ar gael a chan fabwysiadu dull rhagofalus sy'n cymryd i ystyriaeth cyflwr ecolegol nodweddion y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberbaiden i mewn.

48. O ystyried y gostyngiad bach yng nghrynodiad ffosfforws a nodwyd yn ymateb Dŵr Cymru i'r cais am wybodaeth amgylcheddol (EIR), byddwn yn parhau i ystyried materion fesul achos; ar yr amod bod Dŵr Cymru yn parhau i gadarnhau bod capasiti i dderbyn y dŵr gwastraff ychwanegol, yn unol â therfynau diwygiedig y drwydded (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â llif, safonau'r elifiant terfynol a'r llif a drosglwyddir ymlaen), rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r gwaith trin dŵr gwastraff hwn.

Llan-ffwyst

Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru

49. Adolygwyd Trwydded Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llan-ffwyst gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac fe'i cyhoeddwyd ar 6 Tachwedd 2023. Mae gan y drwydded derfyn ffosfforws o 5mg/litr bellach, yn weithredol o 13 Tachwedd 2023 ac roedd terfyn ffosfforws mwy llym o 2mg/litr wedi'i orfodi o 31 Rhagfyr 2025.

50. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llan-ffwyst yn cydymffurfio ar hyn o bryd o safbwynt llif a basiwyd ymlaen.

51. Mae'r drwydded yn cynnwys terfyn amonia o 20mg/litr, yn weithredol o 13 Tachwedd 2024. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y gwaith trin dŵr gwastraff yn cydymffurfio â'r terfyn hwn.

52. Mae ymateb Dŵr Cymru o dan y rheoliadau EIR wedi cadarnhau bod Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llan-ffwyst yn gweithredu'n flaenorol gyda chrynodiad ffosfforws oedd yn uwch na'r terfyn a ganiatawyd fel rhan o'r adolygiad trwyddedau.

Dull y Parc Cenedlaethol

53. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol sydd ar gael a chan fabwysiadu dull rhagofalus sy'n cymryd i ystyriaeth cyflwr ecolegol nodweddion y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llan-ffwyst i mewn.

54. Byddwn yn parhau i ystyried materion fesul achos; ar yr amod bod Dŵr Cymru yn parhau i gadarnhau bod capasiti i dderbyn y dŵr gwastraff ychwanegol, yn unol â therfynau diwygiedig y drwydded (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â llif, safonau'r elifiant terfynol a llif a drosglwyddir ymlaen), rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r gwaith trin dŵr gwastraff hwn.

Talgarth

Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru

55. Mae Trwydded Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Talgarth wedi cael ei hadolygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chafodd ei hailgyhoeddi ar 14 Awst 2023. Roedd y drwydded yn caniatáu cadw'r terfyn ffosfforws presennol o 2mg/litr tan 31 Mawrth 2030; erbyn y dyddiad hwnnw, byddai angen i Dŵr Cymru weithredu cynllun o fewn y Cynllun Rheoli Asedau 8 er mwyn bodloni'r terfyn llymach o 0.25mg/litr. Diwygiwyd y drwydded ar 14 Awst 2026, gan nodi y dylai gweithredu'r terfyn o 0.25mg/litr ddechrau o 1 Ebrill 2028 ymlaen.

56. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Talgarth wedi dangos cydymffurfiaeth anghyson â'r drwydded o ran y llif a basir ymlaen. Deallwn fod Dŵr Cymru wedi cwblhau cynllun i gynorthwyo gyda chydymffurfiaeth o ran y llif a basiwyd ymlaen. Disgwyliwn y bydd monitro pellach yn cadarnhau cydymffurfiaeth â'r drwydded.

57. Mae gan y drwydded derfyn amonia o 8mg/litr, sy'n dod i rym o 14 Awst 2023 ymlaen. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y gwaith trin dŵr gwastraff yn cydymffurfio â'r terfyn hwn.

58. Mae ymateb Dŵr Cymru o dan yr EIR wedi cadarnhau bod Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Talgarth, yn y gorffennol, wedi bod yn gweithredu gyda chrynodiad ffosfforws oedd yn uwch na'r terfyn a ganiatawyd fel rhan o'r adolygiad trwyddedau.

Dull y Parc Cenedlaethol

59. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol sydd ar gael a chan fabwysiadu dull rhagofalus sy'n cymryd i ystyriaeth cyflwr ecolegol nodweddion y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Talgarth i mewn. Sylwer bod hyn yn cynnwys datblygiadau yn Llan-gors ac aneddiadau bach eraill, yn ogystal â Thalgarth.

60. Byddwn felly'n cynnal Asesiad Priodol mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn ystyried materion ar sail achosion unigol.

61. Y cyngor diweddar gan Dŵr Cymru yw bod capasiti i hwyluso'r dŵr gwastraff ychwanegol yn unol â'r terfyn ffosfforws presennol ar y drwydded ddiwygiedig. Mae Dŵr Cymru wedi cwblhau gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r capasiti hydrolig a'r llif a drosglwyddir ymlaen. Cyn belled â bod cydymffurfiaeth yn cael ei chadarnhau adeg y penderfyniad, rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiad sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r gwaith trin dŵr gwastraff hwn cyn 1 Ebrill 2028, yn amodol ar amod tebyg i amod Grampian sy'n gysylltiedig â'r dyddiad hwn. Mae hyn oherwydd lefel yr ymyrraeth sy'n cael ei chyflwyno o ran lleihau ffosfforws yn y gwaith trin dŵr gwastraff (h.y. terfyn ffosfforws yn cael ei dynhau ymhellach o fewn oes caniatâd cynllunio arferol a disgwyliad o lif cydymffurfiol yn cael ei drosglwyddo ymlaen trwy fonitro pellach).

62. Mae Adroddiad Cydymffurfiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod gan gorff dŵr hwn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Gwy darged ffosfforws o 25 µg l^{-1}, ond yn methu'r targed hwn â chanolrif blynyddol o 77 µg l^{-1}. Mae hon yn lefel sylweddol o fethiant. **Felly, nid ydym yn rhagweld gallu cymeradwyo datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau preswyl newydd â'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn ar hyn o bryd gan ddefnyddio amod Grampian.**

63. Byddwn yn cadw'r dull gweithredu uchod o dan adolygiad ac yn parhau i gydweithio â Dŵr Cymru o ran yr amserlen ar gyfer cwblhau mesurau i leihau ffosfforws. Bydd cyhoeddi gwybodaeth bellach gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2027 – sy'n ymwneud â ffosfforws a chydymffurfiaeth o ran ansawdd dŵr – yn ddefnyddiol i ategu ein dealltwriaeth o'r cynnydd mewn gwelliannau i ansawdd dŵr yn Afon Gwy.

Aneddiadau Eraill

Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru

Adolygwyd y trwyddedau amgylcheddol gwaith trin dŵr gwastraff ar gyfer yr aneddiadau canlynol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac fe'i hail-gyflwynwyd gyda'r terfynau ffosffwrws ac amonia canlynol:

64.

Anheddiad	**Dyddiad Ail-gyflwyno Trwydded**	**Cyd-destun y Drwydded**
Aberclydach	24/05/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 23/05/2024 Terfyn amonia: amh.
Bryn-mawr	11/05/2023	Terfyn ffosfforws o 1mg/l yn weithredol o 31/12/2023 Terfyn amonia 6mg/l
Bwlch Llangynidr (De)	13/03/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 20/03/2024 Terfyn amonia: am. (terfyn o 20mg/l yn weithredol o 31/03/2030)
Cradoc	24/06/2024**	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 01/07/2025 Terfyn amonia: am.
Coedwaungaer	24/06/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 01/07/2024 Terfyn amonia: am.
Groesffordd	27/06/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 28/01/2028 Terfyn amonia: am.
Libanus	08/12/2023	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 15/12/2023 â hwn yn cael ei lymhau i 2mg/l ar 31/03/2030

Anheddiad	Dyddiad Ail-gyflwyno Trwydded	Cyd-destun y Drwydded
		Terfyn amonia 20mg/l
Llanbedr	19/06/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 26/06/2024 â hwn yn cael ei lymhau i 1mg/l ar 31/03/2030 Terfyn amonia 7.5mg/l
Llanfrynach	18/03/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 28/01/2028 â hwn yn cael ei lymhau i 2.5mg/l ar 31/03/2030 Terfyn amonia 7mg/l
Llansbyddid	21/12/2023	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 03/01/2024 Terfyn amonia: am.
Gwersyll y Fyddin Pontsenni	18/01/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 25/01/2024 â hwn yn cael ei lymhau i 3.5mg/l ar 31/03/2030 Terfyn amonia 10mg/l
Tal-y-bont	14/02/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 21/02/2024 â hwn yn cael ei lymhau i 1mg/l ar 31/03/2030 Terfyn amonia 5mg/l
Trecastell	21/12/2023	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 03/01/2024 â hwn yn cael ei lymhau i 0.75mg/l ar 31/03/2030 Terfyn amonia 30mg/l
Ffair-fach	26/02/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 04/03/2024
Myddfai	18/01/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 25/01/2024 Terfyn amonia 5mg/l
Llanigon	28/06/2024	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 05/07/2024 â hwn yn cael ei lymhau i 0.5mg/l ar 31/03/2030
Pandy	06/12/2023	Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 26/01/2028 Terfyn amonia 20mg/l

***Fe'n hysbyswyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru bod y gweithfeydd trin dŵr gwastraff hyn yn cael eu monitro gan Dŵr Cymru ac y gallent fod yn destun amrywiad a sefydlwyd gan y gweithredwr i oedi gweithrediad y terfyn ffosfforws.*

65. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y trwyddedau gwaith trin dŵr gwastraff hynny sydd â therfynau amonia yn cydymffurfio ar hyn o bryd.

66. Mae CNC yn cynghori, mewn cyrff dŵr afon sy'n bodloni targedau amonia, y dylai datblygiadau sy'n cysylltu â charthffos gyhoeddus fod yn destun Asesiad Priodol os oes posibilrwydd y bydd crynodiadau amonia yn cynyddu yn y corff dŵr derbyniol yn

y man rhyddhau; mae hyn yn cynnwys achosion lle nad yw'r drwydded ar gyfer y gwaith yn cynnwys terfyn ar gyfer amonia.

Dull y parc cenedlaethol

67. Mae ymateb EIR Dŵr Cymru yn nodi, er bod terfynau ffosfforws wedi'u cyflwyno yn y gweithfeydd trin dŵr gwastraff hyn, nad yw pob un yn gallu dangos bod gostyngiad mewn llwythi ffosfforws wedi digwydd, neu y bydd, gostyngiad yn digwydd. Mae rhai gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn gollwng i gyrff dŵr sy'n pasio targedau ffosfforws a rhai i gyrff dŵr sy'n methu â chyrraedd targedau ffosfforws a/neu â chyrff dŵr sy'n methu islaw. Fel uchod, byddwn yn mabwysiadu dull achos wrth achos ar gyfer cynigion sy'n cysylltu â'r safleoedd hyn.

Llanigon, Pandy, Myddfai and Ffair-fach

68. Mae Adroddiad Cydymffurfiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod cyrff dŵr asesedig yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig islaw'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff hyn yn pasio eu targedau ffosfforws. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar y wybodaeth gyfredol sydd ar gael a thrwy fabwysiadu dull rhagofalus sy'n ystyried cyflwr ecolegol nodweddion y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld y byddwn yn sgrinio allan ddatblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff hyn.

Libanus, Gwersyll y Fyddin ym Mhontsenni, Trecastell, Tal-y-bont

69. Mae Adroddiad Cydymffurfiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod cyrff dŵr yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig islaw'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff hyn yn methu â chyrraedd eu targedau ffosfforws. Mae ymateb Adroddiad Amgylcheddol Dŵr Cymru yn dangos y bydd gostyngiad yn y llwyth ffosfforws yn cael ei gyflawni unwaith y bydd terfynau ffosfforws llymach yn cael eu gweithredu.

70. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch ceisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ac wrth fabwysiadu dull rhagofalus sy'n ystyried cyflwr ecolegol nodweddion y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld y bydd datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff hyn yn destun sgrinio.

71. Felly, byddwn yn cynnal Asesiad Priodol mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru, ac yn ystyried materion fesul achos.

72. Ar yr amod bod Dŵr Cymru yn cadarnhau bod capasiti i ddarparu ar gyfer y dŵr gwastraff ychwanegol yn unol â'r terfyn ffosfforws presennol ar y drwydded ddiwygiedig, a bod digon o gapasiti hydrolig a chydymffurfiaeth â llif a basiwyd ymlaen (lle bo'n berthnasol), rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiad sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r gwaith trin dŵr gwastraff hwn cyn 1 Ebrill 2028, yn amodol ar amod Grampian sy'n gysylltiedig â'r dyddiad hwn. Mae hyn oherwydd lefel yr ymyrraeth

sy'n cael ei chyflwyno o ran lleihau ffosfforws yn y gwaith trin dŵr gwastraff (h.y. terfyn ffosfforws yn cael ei dynhau ymhellach o fewn oes caniatâd cynllunio arferol).

73. ***Oherwydd presenoldeb cyrff dŵr sy'n methu islaw'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff, nid ydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiad sy'n cynnig cysylltiadau preswyl newydd â'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff hyn heb amod Grampian.***

Llanbedr

74. Mae Adroddiad Cydymffurfiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos, er bod Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanbedr yn gollwng i gorff dŵr Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n pasio ei darged ffosfforws, bod y corff dŵr isod yn methu â chyrraedd ei darged ffosfforws. Disgwylir i ollyngiadau o Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanbedr ddangos gostyngiad yn y llwyth ffosfforws o 1 Ebrill 2032. Fodd bynnag, mae'r dyddiad hwn y tu allan i oes caniatâd cynllunio arferol ar hyn o bryd ac o ganlyniad ni all fod yn destun amod arddull Grampian ar hyn o bryd.

Bwlch Llangynidr (De), Llansbyddid, Cradoc, Coedwaungaer, Aberclydach, Bryn-mawr, Groesffordd

75. Mae Adroddiad Cydymffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos, er bod Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Bwlch Llangynidr (De) ac Aberclydach yn gollwng i gyrff dŵr sy'n Ardal Cadwraeth Arbennig ac sy'n bodloni eu targedau ffosfforws, mae un neu fwy o gyrff dŵr i lawr yr afon oddi yno sy'n methu eu targedau ffosfforws. Mae Llansbyddid, Cradoc, Coedwaungaer a Groesfordd i gyd yn gollwng i gyrff dŵr sy'n methu eu targedau ffosfforws (ac mae cyrff dŵr sy'n methu eu targedau hefyd i'w cael i lawr yr afon o bob un ohonynt).

76. Nid oes data monitro ar gael ar hyn o bryd er mwyn dangos bod llwythi ffosfforws mewn gollyngiadau dŵr gwastraff wedi lleihau. Felly, mae'n debygol y bydd angen i gynigion datblygu sy'n cysylltu â'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff hyn ddangos niwtraliaeth maethynnau, er mwyn gallu dod i'r casgliad na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle.

77. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y mater fesul achos drwy broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd penderfyniad cadarnhaol yn cael ei wneud ar geisiadau cynllunio os na fydd gwybodaeth ddigon sicr ar gael, ynghyd â mesurau lliniaru sy'n benodol i'r safle i sicrhau niwtraliaeth maethynnau neu welliant, ac sy'n parhau drwy gydol oes y datblygiad.

78. Byddwn yn cadw'r dull gweithredu uchod o dan adolygiad ac yn parhau i gydweithio â Dŵr Cymru mewn perthynas â data monitro ac unrhyw welliannau a wneir o dan y Cynllun Rheoli Asedau presennol (AMP8) a allai alluogi datblygiad i symud ymlaen heb orfod dangos niwtraliaeth maethynnau. Bydd cyhoeddi gwybodaeth bellach gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2027, sy'n ymwneud â chydymffurfio o ran ffosfforws ac ansawdd dŵr,

yn ddefnyddiol i ategu ein dealltwriaeth o'r cynnydd mewn gwelliannau i ansawdd dŵr yn Afon Gwy.

Beth yw'r sefyllfa o ran Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y Gelli Gandryll?

79. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y Gelli Gandryll wedi'i leoli yn Lloegr ond yn gwasanaethu datblygiad sydd wedi'i leoli yn y Gelli Gandryll sydd wedi'i leoli yng Nghymru. Mae ardaloedd o dir sy'n cysylltu â'r gwaith trin dŵr gwastraff hwn hefyd wedi'u lleoli ar draws tri Awdurdod Cynllunio Lleol – Cyngor Swydd Henffordd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Sir Powys – er bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth bresennol wedi'i lleoli o fewn ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

80. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi bod yn gweithio gyda'r cyrff cadwraeth natur priodol yng Nghymru a Lloegr (Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru), mewn cysylltiad ag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos, sydd wedi cyflwyno'r llythyrau canlynol - Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England; mae'r rhain yn esbonio sut y bydd datblygiadau sy'n bwriadu cysylltu â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y Gelli Gandryll yn cael eu hystyried. Mae'n cadarnhau bod y darn o'r farn i lawr yr afon o Waith Trin Dŵr Gwastraff y Gelli Gandryll yn bodloni ei dargedau ffosfforws ac nad oes angen i unrhyw reolau niwtraliaeth maethynnau gael eu rhoi ar waith.

81. Mae'r gwaith trin dŵr gwastraff yn gollwng i gorff dŵr sy'n cyrraedd ei darged ffosfforws, ac mae'r holl gyrff dŵr i lawr yr afon hefyd yn cyrraedd eu targedau.

82. Cyflwynir y drwydded amgylcheddol ar gyfer y gwaith trin dŵr gwastraff gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac ni fydd yn cael ei hadolygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gweithredir y gwaith trin dŵr gwastraff gan Dŵr Cymru ac mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi ysgrifennu at Dŵr Cymru felly; mae wedi cadarnhau nad oes unrhyw ofyniad terfyn ffosfforws ar gyfer y gwaith trin dŵr gwastraff.

Dull y Parc Cenedlaethol

83. Yn seiliedig ar gyngor Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru a roddwyd i ni yn ogystal ag ar yr wybodaeth gyfredol sydd ar gael sy'n dangos bod y corff dŵr hwn yn pasio ei dargedau ffosfforws, rydym yn rhagweld yn y mwyafrif llethol o achosion sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y Gelli Gandryll allan. Mae hyn ar y sail na ystyrir bod y cysylltiadau hyn yn debygol o achosi'r safle dynodedig i droi'n anffafriol neu fethu'r targed maethynnau neu ddod yn agos at ei fethu mewn unrhyw leoliad sy'n bwysig ar gyfer cynnal nodweddion buddiant dynodedig sensitif y safle Ewropeaidd. Cyfathrebwyd y safbwynt sgrinio hwn i Natural England sydd wedi dynodi nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r safbwynt hwn.

84. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn parhau i ymgynghori â Dŵr Cymru ar geisiadau cynllunio o'r fath.

Beth mae cyngor diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei olygu o ran cysylltiadau â gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus lle nad yw'r drwydded amgylcheddol wedi cael ei hadolygu yn erbyn targedau ansawdd dŵr diwygiedig?

85. Mae'r holl drwyddedau amgylcheddol ar gyfer y gweithfeydd trin dŵr gwastraff mwy wedi cael eu hadolygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru bellach. Nid yw mwyafrif y trwyddedau ar gyfer gweithfeydd trin dŵr gwastraff llai – sydd â llifoedd tywydd sych sy'n llai nag 20m^3 y dydd – wedi cael eu hadolygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac nid oes unrhyw gynllun iddynt gael eu hadolygu ar hyn o bryd.

86. Pan nad yw trwydded ar gyfer gwaith trin dŵr gwastraff wedi cael ei hadolygu yn erbyn y targedau ansawdd dŵr diwygiedig eto, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori y dylai Awdurdodau Cynllunio gynnal Asesiad Priodol o gysylltiadau newydd â charthffos gyhoeddus gan gymryd i ystyriaeth y targedau ffosfforws diwygiedig ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afon a thargedau corff dŵr lleol ar gyfer amonia. Mae'n debygol y bydd angen i gynigion datblygu sy'n cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff o'r fath ddangos niwtraliaeth maethynnau er mwyn dod i gasgliad o ddim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y mater ar sail achosion unigol drwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Fodd bynnag, mae penderfyniad cadarnhaol ar geisiadau cynllunio yn **annhebygol** yn absenoldeb gwybodaeth sy'n ddigon pendant, â mesurau lliniaru penodol i safle i sicrhau niwtraliaeth neu welliant maethynnau, ac ar gyfer oes y datblygiad.

87. Nid yw'r trwyddedau amgylcheddol ar gyfer y gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn yr aneddiadau yn y tabl canlynol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r tabl yn tynnu sylw at a yw'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff bach hyn yn gollwng i gyrff dŵr sy'n methu, neu a oes cyrff dŵr sy'n methu i lawr yr afon a lle mae niwtraliaeth maethynnau felly yn ofynnol.

Anheddiad (a dalgylch yr Afon sy'n Ardal Cadwraeth Arbennig)	**Gollwng i gorff dŵr sy'n methu a/neu gorff dŵr sy'n methu i lawr yr afon**	**Angen niwtraliaeth maethynnau**
Dalgylch Wysg		
Peterstone Court	Ydy	Oes
Pencelli	Ydy	Oes
Pennorth a Scethrog	Ydy	Oes
Cross Oak	Ydy	Oes
Crai	Ydy	Oes
Cwmdu	Ydy	Oes
Tretŵr	Ydy	Oes
Llangenau	Ydy	Oes
Glangrwyne	Ydy	Oes
Llanwenarth	Ydy	Oes
Bryn-mawr (Blackrock)	Ydy	Oes
Dalgych Tywi		
Twynllanan	Nac ydy	Nac oes
Gwynfe	Nac ydy	Nac oes

Bryngwyn	Nac ydy	Nac oes
Bethlehem	Nac ydy	Nac oes
Trap	Nac ydy	Nac oes
Dalgylch Wy		
Felindre	Ydy	Oes
Fford-las	Nac ydy	Nac oes
Cwm Iau	Nac ydy	Nac oes

88. Gallai'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn yr aneddiadau llai hyn gael eu nodi ar gyfer gwelliannau o dan y Cynllun Rheoli Asedau (AMP8) presennol. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn parhau i gydweithio â Dŵr Cymru mewn perthynas â'r gwaith hwn, ac unrhyw welliannau a allai alluogi datblygiad i symud ymlaen heb orfod dangos niwtraliaeth maethynnau.

Pa fesurau ehangach sy'n cael eu cymryd mewn dalgylchoedd afonydd sy'n draenio i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol?

89. Disgwylir y bydd rhai camau i adfer dalgylchoedd afonydd ACA hefyd yn cael eu gweithredu yn nalgylch afon Llwchwr. Bydd y mesurau a nodir ac a gymerir yn cael eu llywio gan asesiad sy'n nodi cyfraniadau cymharol ffynonellau nitrogen o fewn y dalgylchoedd morol perthnasol sy'n ACA. Disgwylir i ganlyniad y modelu ar gyfer dosbarthu ffynonellau gael ei gyhoeddi gan Dŵr Cymru yn y gwanwyn yn 2027, yn dilyn adolygiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Daeth tasglu, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, ag Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ynghyd i nodi ac archwilio opsiynau rhesymol a fyddai'n galluogi datblygu cynaliadwy i ailddechrau.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol drwy Fwrdd Rheoli Maethynnau Gorllewin Cymru.
- Mae Cyfrifiannell Maethynnau Cymru Gyfan wedi cael ei diweddaru ar gyfer dalgylch afon Llwchwr.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau gwaith i ddatblygu dull integredig ar gyfer Cynllun Adfer Maethynnau yn Nalgylch afon Llwchwr.

Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff a Thrwyddedau Amgylcheddol

90. Mae'n annhebygol y gellir cyflawni gostyngiadau ystyrlon mewn gollyngiadau nitrogen drwy welliannau gweithredol i weithfeydd trin dŵr gwastraff presennol (yn wahanol i ollyngiadau ffosfforws). O ganlyniad, bydd angen i ddatblygiadau naill ai ddangos niwtraliaeth maethynnau neu nodi mesurau lliniaru priodol y gellir eu sicrhau a'u gweithredu i fyny'r afon o unrhyw bwynt gollwng arfaethedig. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos bod y prif rwydwaith carthffosiaeth sy'n gollwng i weithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n gwasanaethu Glanaman yn ymestyn i'r Parc Cenedlaethol. Mae rhwydwaith carthffosiaeth Brynaman yn ffinio'n uniongyrchol â rhannau o ffin y Parc Cenedlaethol. Gall unrhyw ddatblygiad newydd sy'n cael ei leoli ar gyrion yr anheddiad ac sy'n dod o fewn y Parc Cenedlaethol arwain at ollyngiadau i'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n gwasanaethu Brynaman.

91. Yn ogystal â chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Llawlyfr Lliniaru Datblygwyr wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio lleol eraill i ddarparu gwybodaeth a chymorth i ddatblygwyr: Llawlyfr Lliniaru Datblygwyr

Ffynonellau o wybodaeth bellach:

Mae Asesiadau Cydymffurfiad Ffosfforws ac Ansawdd Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael yma: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/?lang=cy

Cynhaliwyd dadansoddiad gan Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall y gwahanol elfennau sy'n cyfrannu at y llwyth ffosfforws i'n hafonydd – y cyfeirir ato hefyd fel SAGIS (System Gwybodaeth Ddaearyddol sy'n Dosrannu Ffynhonnell). Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yma: https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/river-water-quality/sac-rivers

Mae Asesiadau cyflwr ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd Cymru (EMS) Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael yma: https://www.naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/condition-assessments-for-welsh-european-marine-sites-ems/?lang=cy.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi cyngor ynghylch cyflawni niwtraliaeth maethynnau ar gyfer cynigion datblygu: Cyfoeth Naturiol Cymru / Egwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau mewn perthynas â datblygiadau neu drwyddedau gollwng dŵr arfaethedig

Ceir rhagor o wybodaeth am Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar wefan Llywodraeth Cymru yma: https://www.llyw.cymru/asesiadau-rheoliadau-cynefinoedd-diogelu-safle-ewropeaidd-html